Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email s4c@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

Ffurflen Gais

Am gael cynnwys yn y rhestr fer i'r tendr ar gyfer Cytundeb Gwifren Gwylwyr S4C

1. Cyflwyniad a Chefndir

Diben y Ffurflen Gais hon yw galluogi S4C i lunio rhestr fer o isafswm o 5 o Ymgeiswyr (os bydd y niferoedd yn caniatáu) i'w gwahodd i dendro am Gytundeb Gwifren Gwylwyr S4C yn unol â'r amodau a'r cyfarwyddiadau a nodir isod. Crëir y rhestr fer o'r Ymgeiswyr hynny sydd wedi cwblhau a danfon y Ffurflen Gais hon i S4C yn unol â'r amodau a'r cyfarwyddiadau isod.

2. Y Broses Tendro

Cwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Gais hon yn unol â'r amodau a'r cyfarwyddiadau a nodir isod yw cam cyntaf y broses dendro hon. Yn dilyn y cam hwn, bydd S4C yn ffurfio rhestr fer o Ymgeiswyr ac fe estynnir gwahoddiad i'r Ymgeiswyr hynny a gynhwysir yn y rhestr fer i dendro am y cytundeb. Bydd disgwyl i'r Ymgeiswyr ar y rhestr fer gyflwyno tendr llawn i S4C. Bydd S4C yn ystyried pob ymateb a dderbynir yn unol â'r gwahoddiad i dendro ac efallai bydd S4C yn gofyn i Ymgeiswyr fynychu cyfweliadau er mwyn egluro gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn eu tendr. Yn dilyn adolygiad o'r tendrau a dderbynir, bydd S4C yn dewis yr Ymgeisydd llwyddiannus ar sail y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd a fernir gan S4C wedi'i seilio ar y meini prawf a nodwyd yn y gwahoddiad i dendro.

3. Amserlen Ddangosol ar gyfer y Broses Dendro

Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses dendro fel a ganlyn:

Ymgeiswyr i gyflwyno Ffurflenni Cais wedi'u cwblhau	12.00 canol dydd 10.04.08
S4C i hysbysu Ymgeiswyr o ganlyniadau'r broses llunio rhestr fer	*15.04.08
S4C i gyhoeddi gwahoddiad i dendro i'r Ymgeiswyr ar y rhestr fer	*wythnos yn cychwyn ar 14.04.08
Ymgeiswyr i gyflwyno ymatebion i'r gwahoddiad i dendro	*12.00 canol dydd 21.05.08
S4C i hysbysu o'r penderfyniad ynghylch dyfarnu cytundeb	*27.05.08
Ymrwymo i gytundeb	*06.06.08

*Sylwer y gallai'r dyddiadau hyn newid

S4/C

Cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r Ffurflen Gais

1. Rhaid i Ymgeiswyr ateb pob cwestiwn yn y Ffurflen Gais ac mae'n rhaid iddynt ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y Ffurflen Gais hon. Gallai methu darparu unrhyw wybodaeth o'r fath arwain at eu gwahardd o'r broses dendro hon. Os bydd Ymgeisydd o'r farn nad yw cwestiwn penodol yn berthnasol, dylai ei farcio fel "amherthnasol" neu debyg.

2. Os yw'r Ymgeisydd yn gwmni sy'n rhan o grŵp o gwmnïau, rhaid i'r cwestiynau yn y Ffurflen Gais hon a'r wybodaeth a gyflwynir gael eu hateb gan neu ynghylch (yn ôl y galw) yr Ymgeisydd ac nid unrhyw rhiant-gwmni neu gwmni daliad neu gwmni grŵp arall.

3. Pan fo hynny'n briodol, dylai'r Ymgeisydd osod unrhyw ddogfennau atodol wrth y Ffurflen Gais hon, gan nodi enw'r Ymgeisydd a rhif y cwestiwn yn y Ffurflen Gais hon y mae'r ddogfen yn ymwneud ag ef, yn eglur.

Instructions for Submission

1. Ar ôl ei chwblhau, rhaid naill ai sganio a chyflwyno'r Ffurflen Gais hon ar ffurf electronig mewn neges e-bost wedi'i chyfeirio at: tendr.cyfathrebu@s4c.co.uk neu ei ddanfon gyda'r post neu trwy law at S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU ac mae'n rhaid i S4C ei derbyn erbyn 12.00 canol dydd ar 10.04.08.

2. Dylid nodi "Ffurflen Gais – Cytundeb Gwifren Gwylwyr S4C" yn eglur ar y neges e-bost neu'r amlen sy'n cynnwys y Ffurflen Gais wedi'i chwblhau.

3. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw sicrhau bod ei Ffurflen Gais wedi'i chwblhau, yn cyrraedd S4C erbyn y dyddiad cau a'r amser a nodwyd yn 1 uchod. Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddiffygion mewn unrhyw system drosglwyddo nac am unrhyw geisiadau sy'n mynd ar goll, sy'n cael eu hoedi neu sy'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw sicrhau bod y deunydd y mae'n ei gyflwyno (ynghyd â'r holl atodiadau perthnasol) wedi ei baratoi mewn da bryd (gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y gall staff fod yn absennol neu fethiannau technegol) ac y caiff ei gyflwyno cyn y dyddiad a'r amser cau. Ni ystyrir prawf o anfon y cais fel prawf o'i dderbyn ac anogir pob ymgeisydd i ofyn am gadarnhad o dderbyn y cais.

4. Ni fydd unrhyw Ffurflen Gais a gyflwynir mewn unrhyw gyfrwng ac eithrio'r hyn a nodir yn 1 uchod neu a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad a'r amser cau a nodwyd yn 1 uchod, yn cael eu hystyried.

Gwybodaeth ac Arweiniad

1. Dylid cyfeirio pob cais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad er mwyn cwblhau'r Ffurflen Gais hon at: tendr.cyfathrebu@s4c.co.uk. Sylwer na ddylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â'r broses dendro hon, at unrhyw swyddog, cyflogai neu gynrychiolydd arall S4C.

2. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, sylwer y gall cais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad er mwyn cwblhau'r Ffurflen Gais hon ac ymateb S4C i geisiadau ac arweiniad o'r fath, gael eu cyhoeddi ar wefan S4C sef: s4c.co.uk/tenders.

3. Am wybodaeth bellach am gefndir S4C, trowch at Adroddiad Blynyddol 2006, sydd ar gael ar wefan S4C (s4c.co.uk).

S4/C

A. Gwybodaeth Sylfaenol am yr Ymgeisydd

Enw llawn yr Ymgeisydd

Rhif cofrestredig yr Ymgeisydd
(pan fo hynny'n berthnasol)

Cyfeiriad swyddfa gofrestredig yr Ymgeisydd (pan fo hynny'n berthnasol)
neu gyfeiriad y prif fan masnachu

Prif rif Ffôn

Prif rif Ffacs

Manylion yr unigolyn yn sefydliad yr Ymgeisydd y dylid cyfeirio'r holl ohebiaeth atynt:

Enw:

Swydd:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Rhif ffacs:

Cyfeiriad e-bost:

Dewis iaith o ran gohebiaeth yn y dyfodol (dewiswch un) Cymraeg ☐ Saesneg ☐

B. Statws yn Ymgeisydd

Nodwch isod a yw'r Ymgeisydd yn (ticiwch):

fasnachwr unigol ☐ partneriaeth ☐

cwmni cyfyngedig preifat ☐ cwmni cyfyngedig cyhoeddus ☐

arall (nodwch)

C. Manylion Banc

Enw a chyfeiriad (ac enw cyswllt) banc yr Ymgeisydd:

Enw cyswllt:

Enw'r Banc:

Cyfeiriad y Gangen:

A ydych yn rhoi awdurdod i S4C gysylltu â'ch banc i gael geirda?

Ydw ☐ Nac Ydw ☐

D. Ansolfedd, Collfarnau Troseddol a gwybodaeth bellach

Nodwch a yw'r Ymgeisydd (Ydynt/Nac ydynt):

		Ydyn	Nac Ydyn
1.	neu unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt bwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto, wedi cael eu dyfarnu'n euog o gyflawni trosedd sy'n ymwneud â chyflawni eu busnes neu eu proffesiwn neu mewn cysylltiad â throseddau cynllwynio, llygredigaeth, llwgrwobraeth, twyll neu wyngalchu arian	☐	☐
2.	yn fethdalwr neu erioed wedi cael gorchymyn derbyn neu orchymyn gweinyddu neu orchymyn cyfyngiadau methdalu yn eu herbyn neu erioed wedi gwneud unrhyw gompownd neu drefniant gyda neu er lles eu credydwyr neu'n ymddangos na allant dalu neu nad oes unrhyw ragolygon rhesymol y gallant dalu dyled neu fod fel arall yn ansolfent yn ôl pob golwg neu'n destun deiseb ar gyfer secwestru eu hystad	☐	☐
3.	wedi pasio penderfyniad neu'n destun gorchymyn gan y llys i'w dirwyn i ben neu wedi cael derbynnydd, rheolwr neu weinyddwr yn cael eu penodi ar ran credydwr a benodwyd ynghylch eu busnes neu unrhyw ran ohono neu os ydynt yn destun unrhyw weithdrefnau tebyg dan gyfraith unrhyw wladwriaeth	☐	☐
4.	neu unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt bwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto, wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn difrifol yn ymwneud â chyflawni eu busnes neu eu proffesiwn	☐	☐
5.	neu unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt bwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto, wedi cael eu dyfarnu'n euog o gyflawni unrhyw gamliwio difrifol wrth ddarparu gwybodaeth y gofynnwyd iddynt amdani ac a oedd yn ymwneud â chaffaeliad	☐	☐
6.	erioed wedi methu cyflawni unrhyw ymrwymiad cyfreithiol sy'n ymwneud â thalu nawdd cymdeithasol neu drethi	☐	☐

E. Gwybodaeth Ariannol

Os byddem yn gofyn amdanynt, a fyddech yn gallu darparu o leiaf un o'r canlynol:

	Byddem	Na
Copi o gyfrifon archwiliedig yr Ymgeisydd ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf	☐	☐
Datganiad cyfrif elw a cholled trosiant yr Ymgeisydd am y ddwy flynedd ddiwethaf	☐	☐

Os Na, rhowch rheswm pam nad yw'n bosib:

F. Gallu Technegol a Chymwysterau Proffesiynol

1. Rhestrwch y mathau o wasanaethau a ddarparir gan yr Ymgeisydd sy'n berthnasol i'r cytundeb hwn, gan ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â hanes, cefndir a phrofiad perthnasol yr Ymgeisydd (gellir defnyddio tudalen ar wahân os bydd angen). Nodwch manylion technegol yr Ymgeisydd – rhwydwaith cyfrifiadur, system ffôn, system minicom.

2. Nodwch fanylion yr holl gymwysterau proffesiynol ac unrhyw gysylltiadau gyda chymdeithasau masnachu perthnasol.

G. Manylion Cytundebau Tebyg

Rhowch restr o gytundebau tebyg a sicrhawyd yn ystod y dair blynedd ddiwethaf, gan nodi'r wybodaeth ganlynol:

Name of Customer	Contract Dates	Contract Value	Description of Goods /Services provided

H. Staff a Phersonél Allweddol

Nodwch fanylion personél allweddol a fyddai'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau perthnasol gan gynnwys eu profiad a'u cymwysterau perthnasol:

I. Systemau

Rhowch ddisgrifiad manwl o'r systemau a ddefnyddir i gyflawni'r cytundeb:

J. Sicrhau Ansawdd

Rhowch ddisgrifiad o'r systemau a'r mesurau a ddefnyddir gan yr Ymgeisydd i sicrhau ansawdd y gwasanaeth. Darparwch gopïau o unrhyw dystysgrifau perthnasol.

K. Geirda

Os byddem yn gofyn amdanynt, a fyddech yn gallu darparu manylion tri chleient y gallwn ofyn am eirda proffesiynol/technegol ganddynt. Rhaid i'r geirda a roddir fod am waith a wnaethpwyd yn ddiweddar ac sy'n waith tebyg i'r hyn y mae'r broses dendro hon yn ymwneud ag ef.

Byddem	Na fyddem
☐	☐

Os Na, rhowch rheswm pam nad yw'n bosib

K. Declaration

Rydw i'n cadarnhau:

(a) fy mod yn meddu ar yr awdurdod angenrheidiol i gwblhau a dychwelyd y Ffurflen Gais hon ar ran yr Ymgeisydd;

(b) bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn y Ffurflen Gais hon yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred; ac

(c) y bydd S4C yn cael ei hysbysu yn ddi-oed os bydd unrhyw unigolyn a enwir isod yn dod yn ymwybodol bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd yn y Ffurflen Gais hon yn anghyflawn neu'n anghywir mewn unrhyw ffordd.

Rydw i'n cydnabod ac yn cytuno ar ran yr Ymgeisydd:

1. bod S4C wedi ei rhwymo i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf RhG") ac efallai y bydd gorfod i S4C ddatgelu gwybodaeth a ddarparir gan yr Ymgeisydd i S4C, dan ddarpariaethau Deddf RhG. Mae'r Ymgeisydd wedi tynnu sylw S4C at unrhyw wybodaeth sydd o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol a ddarparwyd i S4C yn unol â'r Ffurflen Gais hon ac rydym wedi esbonio'r rhesymau dros bennu'r wybodaeth hohnno yn gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol. Mae'r Ymgeisydd yn nodi a chydnabod, fodd bynnag, nad yw nodi bod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol yn gwarantu y bydd yr wybodaeth yn rhydd o ymrwymiadau S4C i'w datgelu. Mae'r Ymgeiswyr yn derbyn y gallai S4C ddatgelu gwybodaeth o'r fath er mwyn ymateb i unrhyw gais dan Ddeddf RhG os bydd S4C yn pennu, yn ôl ei ddisgresiwn, ei fod yn briodol gwneud hynny;

2. bod S4C wedi ei awdurdodi i brosesu'r holl wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r cais hwn ac yn cadarnhau fod yr Ymgeisydd wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i wneud hynny;

3. y bydd yr Ymgeisydd yn cadw unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan S4C neu y bydd S4C yn ei darparu i'r Ymgeisydd mewn unrhyw gyfrwng yn ystod y broses dendro hon neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, yn gyfrinachol;

4. na fydd unrhyw gyfathrebu rhwng S4C â'r Ymgeisydd yn cyfateb â chytundeb neu gynnig a allai gael ei dderbyn na dehongliad y bydd unrhyw gytundeb yn cael ei ddyfarnu a bod S4C yn cadw'r hawl : (a) i dynnu yn ôl o a/neu rhoi'r gorau i a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg; a/neu (b) i beidio dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses dendro hon; a

5. bod gan S4C yr hawl i dynnu'r Ymgeisydd allan o'r broses dendro hon ar ba adeg bynnag y mae'r broses dendro hon wedi cyrraedd os gwelir bod y Ffurflen Gais hon yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd.

Llofnodwyd:

Enw:

Swydd:

Cynrychiolydd a awdurdodwyd yn briodol
Dros ac ar ran:

Dyddiad: